# Agenda – Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 a Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Mehefin 2025

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddSafonau@senedd.cymru

## Cyfarfod cyn y prif gyfarfod

(9.15 – 9.30)

## Cyhoeddus

(9.30 – 10.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Ymchwiliad i urddas a pharch: Sesiwn dystiolaeth 8

(9.30 – 10.30) (Tudalennau 1 – 15)

Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc, Senedd Cymru.

Matthew Richards, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Senedd Cymru.

Leanne Baker, Prif Swyddog Pobl, Senedd Cymru.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

## Preifat

(10.30 – 10.50)

## 4 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

(10.30 – 10.50)

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Llyrthyr gan Joyce Watson AS - Archwiliad sensitif i rywedd o'r Senedd

(Tudalennau 16 - 19)

### 5.2 Nodyn o sesiwn dystiolaeth 7

(Tudalennau 20 - 24)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
Comisiwn y Senedd
—
Welsh Parliament
Senedd Commission

Hannah Blythyn AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Safonau

9 Mehefin 2025

Annwyl Hannah,

**Archwiliad sensitif i rywedd o'r Senedd**

Mae'n bleser gennyf roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am gynnydd yr archwiliad sensitif i rywedd o'r Senedd. Fel y gwyddoch o bosibl, argymhellwyd yr adolygiad hwn yn **Adroddiad Cyfnod 1** y Pwyllgor Biliau Diwygio o'r *Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).* Roedd y Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiwn gynnal archwiliad senedd sy'n sensitif i rywedd ynghylch diwylliant, ffyrdd o weithio a chyfleusterau'r Senedd, a hynny mewn digon o amser i lywio penderfyniadau'r Seithfed Senedd a phrosiect Bae Caerdydd 2032.

Fel Comisiynydd y Senedd gyda'r portffolio dros Gydraddoldeb, byddaf yn arwain y gwaith hwn. Mae Comisiwn y Senedd wedi cytuno ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr archwiliad, ac rydw i wedi'i atodi i'r llythyr hwn er gwybodaeth.

Nod cyffredinol yr archwiliad yw sicrhau bod y Senedd yn mynd ati i gefnogi cynrychiolaeth a chyfranogiad cynhwysol ar draws pob maes gwaith seneddol. Yn benodol, bydd:

- Yn pwyso a mesur cynnydd y Senedd i ddod yn senedd gynhwysol sy'n sensitif i rywedd dros y 26 mlynedd diwethaf;
- Yn nodi lle mae angen cynnydd pellach i wella sensitifrwydd a chynhwysiant o ran rhywedd ar draws pob agwedd ar waith seneddol, yn enwedig wrth wneud penderfyniadau seneddol;
- Yn sicrhau bod profiadau bywyd a syniadau Aelodau yn llywio penderfyniadau ynghylch ffyrdd o weithio yn y dyfodol;

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

-Yn mabwysiadu dull croestoriadol, gan gydnabod sut mae rhywedd yn croestorri â nodweddion eraill i ddylanwadu ar fynediad, cyfranogiad a phŵer, ac

-Yn cynnig argymhellion amserol a gweithredadwy i Gomisiwn a Phwyllgor Busnes y Seithfed Senedd.

Er mwyn goruchwylio'r gwaith hwn, rwy'n bwriadu sefydlu bwrdd archwilio. Byddaf yn ysgrifennu at y tri grŵp gwleidyddol ac Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol i ofyn am enwebiadau ar gyfer Aelodau i sefyll ar y Bwrdd Archwilio.

I lywio penderfyniadau ynghylch ffyrdd o weithio'r Seithfed Senedd a phrosiect Bae Caerdydd 2032, y bwriad yw iddo gyhoeddi adroddiad erbyn diwedd 2025. Bydd hyn yn dibynnu ar gytuno ar aelodaeth y Bwrdd, recriwtio academydd allanol i gynnal cyfweliadau a chasglu data, ac argaeledd yr Aelodau hyd at, ac yn ystod, toriad yr haf.

Efallai y bydd y rhai sy'n cynnal yr ymchwil gefndirol yn cysylltu â chi wrth iddynt gasglu gwybodaeth am sut mae eich gwaith yn croestorri â chylch gwaith yr archwiliad. Rwy'n cymryd bod hyn yn dderbyniol, a byddaf yn cymryd yn ganiataol eich bod yn ymateb ar ran eich Pwyllgor. Os ydych chi'n teimlo bod meysydd gwaith y dylai'r tîm archwilio ymhellach, rhowch wybod imi, rwy'n awyddus i sicrhau bod yr adolygiad yn gynhwysfawr.

Byddaf yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i Gomisiwn y Senedd a’ch Pwyllgor ar adegau priodol, fodd bynnag, rwy’n croesawu eich mewnbwn ar unrhyw adeg ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi.

Cofion gorau

Joyce Watson

Joyce Watson AS

**Atodiad: Cylch gorchwyl ar gyfer Archwiliad Senedd sy'n Sensitif i Rywedd**

Mae gan Fwrdd yr Archwiliad Senedd sy'n Sensitif i Rywedd gylch gwaith i ystyried y materion a ganlyn a chyflwyno adroddiad i Gomisiwn y Senedd arnynt erbyn diwedd 2025:

- i ba raddau y mae'r Senedd ar hyn o bryd, yn enwedig yn ei phroses gwneud penderfyniadau seneddol:

  i. yn gwerthfawrogi ac yn blaenoriaethu cydraddoldeb rhywedd fel amcan cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol;

  ii. yn mynd ati i gefnogi cynrychiolaeth a chyfranogiad cynhwysol, gan gydnabod sut mae rhywedd yn croestorri â nodweddion eraill i lywio mynediad, cyfranogiad a phŵer, ac

  iii. yn ailgyfeirio ac yn trawsnewid ei diwylliant, ei phrosesau, ei harferion a'i hallbynnau sefydliadol tuag at yr amcanion hyn;

- nodi lle mae angen cynnydd pellach i wella sensitifrwydd a chynhwysiant rhywedd ar draws pob agwedd ar waith seneddol, yn enwedig wrth wneud penderfyniadau seneddol, gan ddarparu argymhellion amserol a gweithredadwy i Gomisiwn a Phwyllgor Busnes y Seithfed Senedd.

Wrth gynnal ei waith, bydd Bwrdd yr Archwiliad Senedd sy'n Sensitif i Rywedd yn defnyddio cymrawd academaidd i wneud gwaith casglu data yn defnyddio dulliau cymysg trylwyr a moesegol, gan gynnwys dulliau meintiol ac ansoddol.

Bydd Cadeirydd Bwrdd yr Archwiliad Senedd sy'n Sensitif i Rywedd (Joyce Watson AS) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Bwrdd i Gomisiwn y Senedd ar adegau priodol.

Bydd yr archwiliad hefyd yn ystyried yr adolygiadau a'r argymhellion a wnaed ynghylch cynrychiolaeth yn y Senedd. Mae'r rhain yn cynnwys (ymhlith eraill): **adolygiad academaidd o rwystrau a chymhellion i sefyll mewn etholiad** a gomisiynwyd gan y Bwrdd Taliadau yn 2018; **argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol** ynglŷn

â chynrychiolaeth amrywiol yn 2017, a gwaith diweddar **Pwyllgor Senedd y Dyfodol** ar atebion i rwystrau i gynrychiolaeth.

# Eitem 5.2

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon